Schroders
solutions

# Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (y “Cynllun”)

## Datganiad Gweithredu

Hydref 2024

# Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwr sicrhau bod datganiad ar gael i'r cyhoedd ar-lein ("y Datganiad Gweithredu") sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (y 'Cynllun') yng nghyswllt Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi’r Cynllun (y "DEB").

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn ymwneud â'r strategaeth etifeddiaeth a oedd mewn grym o dan gyngor Mercer Limited ('Mercer') (y cyfeirir ato fel yr Ymgynghorydd Buddsoddi trwy gydol y ddogfen hon) tan fis Mehefin 2024. Ers hynny, mae Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Aberystwyth wedi penodi Schroders IM Limited ('Schroders') yn Rheolwr Buddsoddi ac yn Ymgynghorydd iddynt. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y cafodd y Polisi Rhyngweithio yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB) ei ddilyn yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024, o dan oruchwyliaeth Mercer. Wrth symud ymlaen, bydd yr Ymddiriedolwyr yn mabwysiadu polisïau a strategaethau Schroders i sicrhau cyd-daro ag amcanion hirdymor y Cynllun a blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

Mae'r datganiad gweithredu hwn yn nodi sut, ac i ba raddau, y dilynwyd y Polisi Gweithredu yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ('DEB'), a gynhyrchwyd gan yr Ymddiriedolwyr, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023.
Paratowyd y datganiad hwn yn unol â Rheoliadau’r Gronfa Diogelu Pensiwn (Gwasanaeth yn gysylltiedig â phensiwn) a Chynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) (Diwygio ac Addasu) 2018 (fel y'u diwygiwyd) a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol gan nad yw'r rhain yn cael eu hystyried yng nghyswllt buddsoddiadau cyffredinol y Cynllun.

## Amcanion Buddsoddi’r Cynllun

Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu ei bod yn bwysig ystyried y polisïau sydd ar waith yng nghyd-destun yr amcanion buddsoddi a bennwyd ganddynt. Amcan yr Ymddiriedolwyr, yn unol â’r hyn a bennir yn y Datganiad o Egwyddorion, yw buddsoddi asedau'r Cynllun yn y modd sy'n bodloni buddiannau'r aelodau a'r buddiolwyr orau. O fewn y fframwaith hwnnw, mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar nifer o amcanion a fydd yn helpu i'w harwain yn eu gwaith i reoli asedau'n strategol, a rheoli'r amryw risgiau y mae'r Cynllun yn agored iddynt.

Arweinir cynllun buddsoddi'r Ymddiriedolwyr gan eu nod i gynhyrchu adenillion o'r buddsoddiadau dros y tymor hir, sy'n cyd-fynd â'r tybiaethau actiwaraidd i'r hirdymor a fu'n sail i’r cynllun cyllido y cytunwyd arno. Mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon cymryd rhywfaint o risgiau er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ecwitïau, asedau amgen a bondiau anllywodraethol, a thrwy ddefnyddio rheolwyr cronfeydd gweithredol i reoli rhai o asedau'r Cynllun. Mae gallu a pharodrwydd yr Ymddiriedolwyr i gymryd risg o'r fath yn amodol ar yr egwyddorion a roddir yn Rhan 5 o'r Datganiad o Egwyddorion.

## Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

Mae’r Ymddiriedolwyr wedi adolygu DEB y Cynllun dros y flwyddyn dan sylw. Diweddarwyd y DEB i adlewyrchu blaenoriaethau stiwardiaeth allweddol yr Ymddiriedolwyr, yn ogystal ag ehangu ar y rhestr o risgiau y mae'r Cynllun yn agored iddynt. Cafodd y DEB ei lofnodi ddiwethaf ym mis Tachwedd 2023. Yn dilyn penodi Schroders fel Rheolwr a Chynghorydd buddsoddi mae’r DEB wrthi'n cael ei ddiweddaru a disgwylir iddo gael cymeradwyaeth ym mis Hydref 2024.

## Polisi ar Faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, Stiwardiaeth a Newid yn yr Hinsawdd

Mae DEB y Cynllun yn cynnwys polisi'r Ymddiriedolwyr ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG), gan gynnwys stiwardiaeth a newid yn yr hinsawdd. Mae'r polisi hwn yn nodi credoau'r Ymddiriedolwyr ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, a newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â'r prosesau a ddilynir gan yr Ymddiriedolwyr ynghylch hawliau pleidleisio a stiwardiaeth. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn ystyried materion anariannol wrth asesu'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol a'r rheolwyr. Nid yw barn yr Aelodau (gan gynnwys y rhai ar faterion anariannol, megis barn foesegol aelodau, y mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried eu bod ar wahân i ystyriaethau ariannol megis materion amgylcheddol,

cymdeithasol a llywodraethu materol ariannol) yn cael eu hystyried yn benodol wrth ddethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llwyr i'r rheolwyr buddsoddi penodedig o ran cloriannu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan gynnwys ystyriaethau ar newid yn yr hinsawdd, ac wrth arfer eu hawliau pleidleisio a'r ymrwymiadau stiwardiaeth (gan gynnwys rhyngweithio) sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau, yn unol â'u polisïau llywodraethu corfforaethol eu hun a'r ymarfer gorau presennol, gan gynnwys Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a Chod Stiwardiaeth y DU. Ar wahân i'r rhai a wnaed gan y rheolwyr buddsoddi ar ran yr Ymddiriedolwyr, ni wnaed unrhyw weithgareddau rhyngweithio ychwanegol ac nid yw'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio gwasanaethau pleidleisiwr dirprwyol yn uniongyrchol.

Gwnaed y gwaith canlynol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 yn ymwneud â pholisi'r Ymddiriedolwyr ar ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan gynnwys stiwardiaeth a newid yn yr hinsawdd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y cafodd polisïau rhyngweithio a phleidleisio'r Ymddiriedolwyr eu dilyn a'u gweithredu yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfforddus â'r ffordd y rhyngweithiodd rheolwyr buddsoddi'r Cynllun (gan gynnwys arfer unrhyw hawliau pleidleisio) â chwmnïau buddsoddwyr yn ystod blwyddyn y Cynllun.

## Gweithgarwch Rhyngweithio a Phleidleisio

Nid yw’r Ymddiriedolwyr yn dal gwarantau yn uniongyrchol, ond yn hytrach maent yn buddsoddi mewn cyfryngau buddsoddi cyfun. Nid oes gan y Cynllun berchnogaeth uniongyrchol ar y gwarantau gwaelodol y mae'r cronfeydd cyfun yn buddsoddi ynddynt, ac felly does ganddo hawliau pleidleisio ar fuddsoddiadau'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llawn i'r rheolwyr buddsoddi i arddel yr hawliau pleidleisio a'r rhwymedigaethau stiwardiaeth sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau gwaelodol y cronfeydd. Bydd adroddiad ar berfformiad buddsoddiadau yn cael ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr bob chwarter, a bydd yr adroddiad hwnnw’n cynnwys sgorio gan yr ymgynghorydd buddsoddi ar gyfer y strategaethau y mae'r Cynllun yn buddsoddi ynddynt yn gyffredinol, ac yn benodol o ran materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Pe bai unrhyw sgôr gan yr ymgynghorydd buddsoddi yn cael ei hisraddio, byddai'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r rhesymau dros y newid hwnnw. Efallai y bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn penderfynu rhyngweithio â'r rheolwr buddsoddi i ddeall a yw polisïau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu’r rheolwr yn dal i gyd-fynd â pholisïau'r Ymddiriedolwyr. Nid oedd angen adolygiad o'r fath dros y flwyddyn dan sylw ac roedd yr Ymddiriedolwyr wedi’u bodloni bod lefel sgoriau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yr ymgynghorydd buddsoddi a glustnodwyd i’r strategaethau y mae’r Cynllun yn buddsoddi ynddynt yn dderbyniol o hyd.

Ar ben hynny, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau a gweithgareddau rhyngweithio’r rheolwyr buddsoddi penodedig (lle bo hynny'n berthnasol) bob blwyddyn, ac maent wedi ystyried adroddiadau diweddaraf y rheolwyr yn hyn o beth yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o reolwyr buddsoddi'r Cynllun yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol, sy'n cynnwys manylion am yr ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol ac am sut mae'r rheolwyr yn cynnal cyswllt â’r chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Bydd yr Ymddiriedolwyr (gyda chymorth yr ymgynghorydd buddsoddi) hefyd yn ystyried sut mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol yn cael eu hintegreiddio i brosesau penderfynu'r rheolwr wrth weithredu unrhyw fuddsoddiadau newydd neu wrth benodi rheolwyr. Ni wnaeth yr Ymddiriedolwyr benodi unrhyw reolwyr newydd dros y cyfnod.

Er mwyn gweithredu’r strategaeth y dymunir ei chyflawni, mae’r Ymddiriedolwyr yn penodi rheolwyr buddsoddi sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, a Cod Stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol i’r DU, lle bo hynny'n bosib. Ar adeg ysgrifennu'r polisi hwn, mae pob un o reolwyr presennol y Cynllun wedi eu llofnodi’r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol yn ogystal â Chod Stiwardiaeth y DU.

Yn sgil yr ymateb i ymgynghoriad yr Adran Gwaith a Phensiynau a’r canlyniadau ynghylch Datganiadau Gweithredu ar 17 Mehefin 2022, lluniwyd canllawiau diwygiedig sydd wedi dod i rym ar gyfer pob cynllun a ddaeth i ben ar 1 Hydref 2022 neu ar ôl hynny. Mae'r canllawiau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolwyr gynnwys disgrifiad o'r hyn sy’n cael ei gyfrif yn bleidlais arwyddocaol o fewn Datganiadau Gweithredu (ymhlith pethau eraill). Diffinnir pleidlais arwyddocaol yn y canllawiau diwygiedig fel un sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau/themâu stiwardiaeth y Cynllun, er y gallai pleidlais fod yn arwyddocaol am resymau eraill hefyd, e.e. oherwydd maint y daliad. Mae’r Ymddiriedolwyr yn diffinio pleidlais arwyddocaol ar sail y blaenoriaethau/themâu stiwardiaeth allweddol isod:

- **Newid yn yr hinsawdd – er enghraifft, pleidlais sy'n gofyn am gyhoeddi strategaeth sy'n cyd-fynd â Chytundeb Paris.**

- **Bioamrywiaeth – er enghraifft, pleidlais i ddylanwadu ar gwmni i fynd i'r afael ag effeithiau colli bioamrywiaeth.**
- **Estyn allan i'r gymuned – er enghraifft, pleidlais sy'n ymwneud â sut mae'r endid yn rhyngweithio â'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt.**
- **Amrywioldeb ar y Bwrdd - er enghraifft, pleidlais yn mynd yn erbyn Cadeirydd y pwyllgor enwebu lle nad yw'r bwrdd yn ddigon amrywiol neu bleidlais yn erbyn cyfarwyddwr nad yw'n annibynnol.**

Pennodd yr Ymddiriedolwyr y blaenoriaethau hynny ar sail eu credoau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan ystyried gwerthoedd, amcanion a thargedau cynaliadwyedd y Brifysgol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod pleidlais yn arwyddocaol os yw'n ymwneud â daliad sy'n cyfrif am o leiaf 1% o'r gronfa berthnasol (lle mae data ar gael). Mae'r rheolwyr buddsoddi yn ymwybodol o bolisïau'r Ymddiriedolwyr ar stiwardiaeth a rhyngweithio.

Mae gweddill y datganiad hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gweithgarwch pleidleisio a rhyngweithio a wnaed gan reolwyr buddsoddi'r Cynllun ar ran yr Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

## Invesco

Caeodd Cronfa 'Global Targeted Returns' Byd-eang Invesco yn Ch1 2024. Fodd bynnag, mae Invesco wedi darparu'r wybodaeth isod am y cyfnod o 31 Gorffennaf 2023 hyd ddyddiad cau'r Gronfa.

Roedd Cronfa 'Global Targeted Returns' Invesco yn gymwys i bleidleisio mewn 24 o gyfarfodydd, a oedd yn cynnwys 221 o benderfyniadau dros y cyfnod. O'r penderfyniadau hyn, pleidleisiodd Invesco gyda'r rheolwyr 96% o'r amser. Nid ystyriwyd bod yr un o'r pleidleisiau hyn yn arwyddocaol yn seiliedig ar ddiffiniad yr Ymddiriedolwyr o'r hyn sydd yn cyfrif fel pleidlais arwyddocaol. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod y pleidleisiau isod yn rhai arwyddocaol, ar sail y diffiniad uchod o'r hyn sydd, yn ôl cred yr Ymddiriedolwyr, yn bleidlais arwyddocaol.

| Cwmni | Maint y daliad (yn fras) | Blaenoriaeth stiwardiaeth | Crynodeb o benderfyniad | Dyddiad | Sut y pleidleisiodd Invesco | Rhesymeg y rheolwyr | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ming Yang Smart Energy Group Co, Ltd** | >1% | Amrywioldeb y bwrdd | Penderfyniadau cwmni i ethol Cyfarwyddwyr | 20 Medi 2023 | O blaid (yn unol â rheolwyr) | Ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol. | Pasiwyd y penderfyniad |

## Insight

Mae cronfa 'Broad Opportunities' Insight yn anelu at gynhyrchu twf cyfalaf hirdymor trwy ddyrannu'r ddeinamig ar draws dosbarthiadau amrywiol o asedau. Mae'r strategaeth yn arddel dull macro byd-eang ac yn defnyddio deilliadau, gwarantau ar sail mynegai'r farchnad, cwmnïau buddsoddi pengaead rhestredig (daliadau uniongyrchol) a chronfeydd cyfun er mwyn sicrhau y buddsoddir ym mhob un o'r dosbarthiadau gwaelodol o asedau, yn unol â'r cyfrannau penodedig.
Mae dosbarthiadau'r asedau a arddelir yn y strategaeth yn cynnig gwahanol ffyrdd o fabwysiadu dulliau cyfrifol o fuddsoddi. Mae Insight yn defnyddio offerynnau deilliadol yn helaeth ac, ers cryn dipyn, yn cefnogi datblygu'r marchnadoedd hyn er mwyn helpu buddsoddwyr cyfrifol. Ar ôl adolygiad helaeth o offerynnau, dechreuodd Insight ddefnyddio deilliadau ecwiti wedi'u sgrinio am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn gynnar yn 2020.

- Gydag incwm sefydlog, er mwyn sicrhau y buddsoddir mewn dosbarthiadau penodol, gall y strategaeth fuddsoddi mewn cyfryngau cyfun a reolir gan Insight. Er mwyn gallu cymryd camau o'r fath, mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn rhan hanfodol o brosesau ymchwil a rhyngweithio corfforaethol a sofran Insight.
- Mae daliadau uniongyrchol y strategaeth mewn cwmnïau seilwaith pengaead rhestredig yn darparu cyfleoedd i rhyngweithio sy'n wahanol i fuddsoddiadau a seilir ar y farchnad. Yn 2020, cydweithiodd

Insight â chorff allanol i ddatblygu holiadur mewnol ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar gyfer daliadau seilwaith y strategaeth. Mae'r holiadur yn helpu i asesu nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ar draws gwahanol sectorau ac i nodi meysydd ar gyfer rhyngweithio yn y dyfodol. Yng nghyswllt 11 daliad seilwaith y portffolio, rhyngweithiodd Insight 12 o weithiau yn y 12 mis hyd at 30 Mehefin 2024.

Fel perchnogion gweithredol daliadau uniongyrchol y strategaeth, mae Insight yn arddel eu rôl stiwardiaeth trwy gysylltu'n rheolaidd â rheolwyr y cyrff y buddsoddir ynddynt a byrddau cwmnïau i drafod ystod o faterion perthnasol gan gynnwys llywodraethu, strategaeth a gweithredu dulliau cyfrifol o fuddsoddi. Roedd Cronfa ‘Broad Opportunities’ Insight yn gymwys i bleidleisio mewn 12 o gyfarfodydd, a oedd yn cynnwys 160 o benderfyniadau dros y flwyddyn hyd at 30 Mehefin 2024. O'r penderfyniadau hyn, pleidleisiodd Insight gyda’r rheolwyr 100% o'r amser. Nid ystyriwyd bod yr un o’r pleidleisiau hyn yn arwyddocaol yn seiliedig ar ddiffiniad yr Ymddiriedolwyr o'r hyn sydd yn cyfrif fel pleidlais arwyddocaol. Mae Insight yn defnyddio Minerva Analytics i ddadansoddi unrhyw benderfyniadau yn ôl eu templedi polisi pleidleisio penodol. Mae Minerva yn adolygu pob pleidlais yn ôl meini prawf penodol Insight, ac yn darparu argymhelliad i bob eitem. Mae Insight yn pleidleisio yn unol ag argymhellion yr asiant pleidleisio dirprwyol.

### CBRE

Fel cronfa eiddo o gronfeydd, nid oes gan yr asedau gwaelodol y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt hawliau pleidleisio. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o Gerdyn Sgorio Cynaliadwyedd y Gronfa, y mae CBRE yn ei ddefnyddio fel adnodd mewnol i fesur perfformiad yng nghyswllt cronfeydd eraill, nododd CBRE feysydd posibl i'w gwella. Cysylltodd CBRE â rheolwyr y gronfa waelodol i ddeall sut y byddent yn ceisio gwella perfformiad ar amrywiaeth o bwyntiau data sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan gynnwys ardystiadau adeiladu, targedau carbon sero net, perfformiad GRESB a chwmpas data cyfleustodau. Roedd holl reolwyr y cronfeydd gwaelodol yn darparu ymatebion digonol i CBRE ynghylch y mesurau y byddent yn eu cymryd i wella perfformiad o ran materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Mae CBRE yn nodi bod ymgysylltu yn gynyddol gyfyngedig i'r Gronfa gan ei bod wedi bod yn graddol ddod i ben ers mis Mawrth 2020.

### Columbia Threadneedle

Fel rheolwr buddsoddi a yrrir gan rwymedigaethau, nid oes gan yr asedau gwaelodol y mae'r cronfeydd yn buddsoddi ynddynt hawliau pleidleisio ac felly mae’r cyfle i ryngweithio yn gyfyngedig. Serch hynny, mae gan Columbia Threadneedle raglen ryngweithio gref â'u gwrthbartïon ac mae buddsoddi’n gyfrifol yn elfen greiddiol o gredoau Columbia Threadneedle.

### LGIM

Fel rheolwr bondiau, nid oes gan yr asedau gwaelodol y mae'r cronfeydd yn buddsoddi ynddynt hawliau pleidleisio. Serch hynny, fel cwmni, mae LGIM yn credu bod buddsoddi’n gyfrifol yn hanfodol er mwyn lliniaru risg, manteisio ar gyfleoedd, a chryfhau enillion yn y tymor hir. Mae rhyngweithio gweithredol â chwmnïau a llunwyr polisi yn rhan allweddol o'u ffordd o weithio.

**Mae'r Ymddiriedolwr yn fodlon bod y gweithgareddau pleidleisio a rhyngweithio a wneir gan yr Ymgynghorydd Buddsoddi a'r Rheolwyr Buddsoddi Gwaelodol yn cyd-daro â'r blaenoriaethau stiwardiaeth y mae'r Ymddiriedolwr wedi'u pennu yn ystod Blwyddyn y Cynllun, felly mae'r Ymddiriedolwr yn credu ei fod wedi gweithredu'r Polisi Stiwardiaeth a nodir yn DEB y Cynllun yn foddhaol.**